**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

**WESP 29**
**Ymateb gan : Cyngor Gwynedd**
**Response from : Gwynedd Council**

## Cwestiwn 1

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| Canolbwynt y cynlluniau yw'r targedau a geir yn Strategaeth Ll.C., a chan bod gofyn **statudol** ar yr Awdurdodau i adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn erbyn y targedau hyn, credir eu bod yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir.<br><br>Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol statudol hwn. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |
| |

## Cwestiwn 2

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)? |
| Mae'r ffaith bod y cynllun yn statudol ers 1 Ebrill 2014 yn fodd i'r Awdurdod rymuso ei weithdrefnau gan sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae pob Aelod Etholedig yng Ngwynedd wedi derbyn copi o'r cynllun a hynny fel arwydd o'u hymrwymiad i weld yr hyn a nodir ynddo yn cael ei gyflawni ac er mwyn i bawb gyfrannu at y trafodaethau a'r gweithredu ymhob un o'r sefydliadau addysgol. |

| |
|---|
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn? |
| |

## Cwestiwn 3

| |
|---|
| Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)? |
| O safbwynt y drefn yng Ngwynedd, sefydlwyd gweithgor sydd gyda traws doriad eang o gynrychiolwyr (ysgolion, Aelodau Etholedig, Ymgynghorydd Her, Swyddogion, Mudiad Meithrin, Consortiwm Ôl-16) i fod yn gyfrifol am bennu targedau, monitro, adolygu a.y.y b.  Mae'r gweithgor yn fodd i gynnal trafodaeth lawn ar yr uchod ac mae'r gweithdrefnau hynny'n briodol. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| |

## Cwestiwn 4

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?<br>(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)? |
| Credir bod y cynlluniau yn rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaethau a pholisïau eraill.<br>Roedd canllawiau'r Llywodraeth yn nodi'n glir bod gofyn i awdurdodau ymgynghori â rhanddeiliaid dynodedig a chafwyd mewnbwn gan yr asiantaethau perthnasol wrth lunio'n cynllun. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| |

## Cwestiwn 5

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel? |
| Oherwydd mai craidd yr hyn a wneir yng Ngwynedd yw gwireddu amcanion y cynllun, mae pob plentyn yn cael canlyniadau teg ym mhob maes addysgol.<br><br>Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn Y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Yn ogystal â datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. |
| Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn? |
| |

## Cwestiwn 6

| |
|---|
| Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| Ystyried priodoldeb cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg yn y Grant Gwella Addysg o ystyried mai prif ddiben Grant y Gymraeg mewn Addysg oedd rhoi cymorth ar lefel ranbarthol a lleol i weithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y grant a'r Cynlluniau Strategol, a nod y ddau yw cyflawni deilliannau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. |

## Cwestiwn 7

| |
|---|
| A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| |